

# Cyngor Sir Gaerfyrddin Polisi Rhyddid Gwybodaeth



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)  
[carmarthenshire.gov.wales](http://carmarthenshire.gov.wales)

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

## Cynnwys

### Rhan 1

1. Diben
2. Statws
3. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
4. Nodweddion allweddol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
5. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
6. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
7. Egwyddorion allweddol o ran agwedd Cyngor Sir Caerfyrddin at fod yn agored
8. Adolygu'r Polisi

### Rhan 2: Ceisiadau am wybodaeth

1. Darparu cyngor a chymorth
2. Gwneud cais am wybodaeth
3. Darparu ymateb prydlon a chynhwysfawr i gais am wybodaeth
4. Terfyn cost
5. Ceisiadau blinderus
6. Adolygiadau mewnol

### Rhan 3: Esbonio'r egwyddorion

1. Bod mor agored â phosibl
2. Cyflwyniad busnes
3. Cynllun cyhoeddi
4. Codi tâl am wybodaeth
5. Diogelu preifatrwydd
6. Datganiad cydraddoldebau

### Atodiadau

Atodiad 1 – Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Eithriadau absoliwt

Atodiad 2 – Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Eithriadau amodol

Atodiad 3 – Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol – eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth

# Rhan 1

## 1. Diben

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i ddull Cyngor Sir Caerfyrddin o hyrwyddo llywodraeth agored ac yn atgyfnerthu ei ymrwymiad i fod yn agored.

## 2. Statws

Nid yw'r Polisi hwn yn ddogfen gyfreithiol ac nid yw'n rhoi hawliau nac yn diystyru unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol neu statudol sydd naill ai'n mynnu neu'n atal datgelu gwybodaeth.

Mae'r Polisi yn berthnasol i wybodaeth a gedwir gan y Cyngor. Mae contractau gyda chwmnïau preifat yr ymrwymir iddynt gan y Cyngor yn cynnwys telerau sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth.

Drwy gydol y Polisi hwn, mae cyfeiriadau at y Cyngor yn gyfeiriadau at Gyngor Sir Caerfyrddin.

## 3. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Polisi'n adlewyrchu nodweddion allweddol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf), gan gynnwys y categorïau o wybodaeth eithriedig a nodir yn y ddeddfwriaeth hon.

Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried gofynion Côt Ymarfer Rhyddid Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet (4 Gorffennaf 2018), sy'n nodi arfer gorau wrth gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

## 4. Nodweddion allweddol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Ddeddf yn darparu hawl mynediad cyffredinol i wybodaeth gofnodedig a gedwir gan y Cyngor ac yn gosod dwy ddyletswydd gyffredinol ar y Cyngor:

- Cael gwybod yn ysgrifenedig a oes gennym wybodaeth sy'n bodloni'r disgrifiad a nodir yn y cais; a
- Darparu'r wybodaeth sydd gennym sy'n ymwneud â'r cais.

Mae'r meini prawf ar gyfer pryd mae gwybodaeth yn cael ei 'chadw' yn gyfreithiol gan y Cyngor yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir, hynny yw, yn ein meddiant ar ffurf gofnodedig ar yr adeg y derbynnir y cais
- Gwybodaeth wedi'i storio mewn gweinyddion oddi ar y safle neu storio ar gwmwl
- Gwybodaeth a gedwir gan sefydliadau ac awdurdodau eraill ar ran y Cyngor, gan gynnwys, er enghraifft, gan contractwyr

Nid yw gwybodaeth a grëir ar ôl derbyn cais yn cael ei 'chadw' at ddibenion y Ddeddf, ac nid yw ychwaith yn wybodaeth sydd wedi'i dileu o systemau a chynllun ffeiliau'r Cyngor ac a gedwir mewn ffeiliau electronig wrth gefn yn unig.

Mae'r Ddeddf hefyd yn:

- Darparu terfynau amser statudol i gydymffurfio â chais am wybodaeth
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyngor a chymorth i bobl sy'n ceisio gwybodaeth
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi'r sail dros wrthod cais am wybodaeth a darparu cyngor ar sut i wneud cwyn o dan yr amgylchiadau hynny

Mae'r dyletswyddau hyn yn amodol ar eithriadau a nodir yn Atodiadau 1 a 2.

Er bod rhai o'r eithriadau hyn yn absoliwt, mae eraill yn amodol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r hyn a elwir yn brawf budd y cyhoedd cyn penderfynu a ddylid atal neu ryddhau'r wybodaeth.

Mae'n rhaid i'r Cyngor asesu, dan yr holl amgylchiadau, a yw budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor wahaniaethu rhwng yr hyn sydd wirioneddol er budd y cyhoedd a'r hyn a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn unig.

Mae'r Ddeddf yn nodi, ar wahân i'r eithriadau y cyfeirir atynt uchod, y gall y Cyngor hefyd wrthod cadarnhau neu wadu a yw'n cadw gwybodaeth a/neu roi mynediad iddi lle:

- Byddai gwneud hynny yn fwy na'r terfyn cost
- Mae angen ffi ac nid yw wedi'i thalu
- Mae ceisiadau'n flinderus neu'n cael eu hailadrodd neu lle derbynnir ceisiadau sylweddol debyg gan yr un person
- Nad yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o fanylion i nodi'r wybodaeth sydd ei hangen

Mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor fabwysiadu, gweithredu, cynnal ac adolygu'n rheolaidd gynllun cyhoeddi sy'n gosod ymrwymiad ar y Cyngor i gyhoeddi rhai dosbarthiadau o wybodaeth yn rheolaidd, heb fod angen gwneud cais i'w gweld. Mae'n rhaid i'r cynllun nodi:

- Y dosbarthiadau o wybodaeth y mae'r Cyngor yn eu cyhoeddi fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol
- Sut y gellir cael y wybodaeth
- A yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl

## 5. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod annibynnol a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Mae ei dyletswyddau'n cynnwys hybu'r gwaith o gydymffurfio â

gofynion y Ddeddf, hybu arfer da ac ymchwilio i gwynion am fethiant awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Wrth ymchwilio i gŵyn, gall y Comisiynydd Gwybodaeth orfodi awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth os ystyrir ei bod wedi'i dal yn ôl yn anghywir.

## **6. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004**

Pan ofynnir am wybodaeth a gofnodwyd a ddiffinnir fel 'gwybodaeth amgylcheddol', yna ymdrinnir â'r cais o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (y Rheoliadau), yn hytrach na'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau yn darparu hawl gyffredinol i gael mynediad at wybodaeth sy'n rhan o'r diffiniad o wybodaeth amgylcheddol. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am:

- Cyflwr elfennau'r amgylchedd, megis aer, atmosffer, dŵr a thir, a'r rhyngweithio rhwng yr elfennau hyn
- Ffactorau sy'n effeithio neu'n debygol o effeithio ar yr elfennau hyn, megis allyriadau, sŵn, ymbelydredd a gwastraff
- Mesurau a gweithgareddau sy'n effeithio neu a all effeithio ar yr elfennau a'r ffactorau hyn
- Adroddiadau ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol
- Dadansoddiadau budd cost a dadansoddiadau economaidd eraill a ddefnyddir yn y mesurau a'r gweithgareddau y cyfeirir atynt uchod
- Cyflwr iechyd a diogelwch dynol lle mae elfennau o'r amgylchedd yn effeithio ar hyn

Mae dau wahaniaeth allweddol rhwng y Rheoliadau a'r Ddeddf:

- Gellir gwneud ceisiadau ar lafar
- Mae'r amgylchiadau lle gellir gwrthod ceisiadau yn fwy cyfyngedig

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys rhagdybiaeth o blaid datgelu ac fel y Ddeddf, os yw'r Cyngor yn gwrthod darparu unrhyw wybodaeth sydd ganddo, mae'n ofynnol iddo nodi'n ysgrifenedig ei resymau dros wneud hynny, gan gymhwyso un o'r eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth. Mae'r eithriadau hyn i'w gweld yn Atodiad 3.

## **7. Egwyddorion allweddol o ran agwedd y Cyngor at fod yn agored**

Er gwaethaf gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion a ganlyn, a eglurir yn fanylach yn Rhan 3:

- Bod mor agored â phosibl yn y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes
- Cyflwyno gwybodaeth mewn iaith glir yn unol â'i gynllun iaith a chan ystyried gwahanol anghenion
- Gwneud defnydd helaeth o wefan y Cyngor fel ffordd o gyhoeddi gwybodaeth [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)
- Darparu ymatebion prydlon a chynhwysfawr i geisiadau am wybodaeth

- Rhoi hawl i ofyn am adolygiad mewnol pan nad yw aelod o'r cyhoedd yn fodlon ar yr ymateb a dderbyniwyd
- Darparu gwybodaeth am ddim lle bynnag y bo modd a chyngor clir am daliadau a phryd maent yn berthnasol
- Parchu preifatrwydd personol, cyfrinachedd masnachol, dyletswydd cyfrinachedd a'r holl gyfreithiau sy'n llywodraethu rhyddhau gwybodaeth

## **8. Adolygu'r Polisi**

Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion statudol ac unrhyw godau ymarfer a wneir o dan y Ddeddf.

## Rhan 2

### Ceisiadau am wybodaeth

#### 1. Darparu cyngor a chymorth

Cyn belled ag y bo'n rhesymol a phosibl, bydd y Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth i unrhyw un sydd wedi gwneud cais neu sy'n dymuno gwneud cais mewn perthynas â'u ceisiadau am wybodaeth.

Dylai unrhyw un sydd angen cyngor ynghylch mynediad at wybodaeth gysylltu â'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar dudalen gynnwys y ddogfen hon.

#### 2. Gwneud cais am wybodaeth

Mae'n rhaid i geisiadau am wybodaeth fod yn ysgrifenedig a gellir eu gwneud:

- Dros e-bost
- Trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein a ddarperir ar wefan y Cyngor
- Trwy'r post, i'r cyfeiriad a ddarparwyd

Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r opsiynau hyn yn amlwg ar ei wefan.

Yr eithriad i'r gofyniad i wneud cais ysgrifenedig yw'r rhai sy'n dod o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, y gellir eu gwneud ar lafar.

Mae'n rhaid i geisiadau am wybodaeth:

- Cynnwys cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post y mae'r ateb i'w anfon iddo
- Rhoi digon o wybodaeth i swyddogion allu nodi pa wybodaeth sydd ei hangen – lle nad yw cais yn cynnwys digon o fanylion i swyddogion benderfynu pa wybodaeth y mae'r ymgeisydd eisiau, gellir gofyn am eglurhad.

Pan nad yw person yn gallu gwneud ei gais yn ysgrifenedig, bydd y Cyngor yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i alluogi gwneud cais am wybodaeth. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, bydd hyn yn cynnwys:

- Rhoi gwybod iddynt y gall person neu asiantaeth arall eu cynorthwyo gyda'r cais, neu wneud y cais ar eu rhan
- O dan amgylchiadau eithriadol, cymryd nodyn o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, dros y ffôn neu'n bersonol, a darparu nodyn i'r ymgeisydd i'w gadarnhau. Mewn achosion o'r fath, pan fydd y cais wedi'i ddilysu a'i ddychwelyd i'r Cyngor, bydd y nodyn yn gyfystyr â chais ysgrifenedig am wybodaeth a bydd y terfyn amser statudol ar gyfer ymateb yn dechrau pan geir cadarnhad.

### 3. Darparu ymateb prydlon a chynhwysfawr i gais am wybodaeth

Bydd y Cyngor yn ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i geisiadau am wybodaeth.

Os byddwn yn atal gwybodaeth a/neu'n methu â darparu'r wybodaeth yn y ffurf a ffeirir ac y gofynnir amdani gan yr ymgeisydd, byddwn yn esbonio pam.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf neu Reoliadau yn brydlon o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn beth bynnag fo'r cais. Mae diwrnod gwaith yn golygu unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu unrhyw ddiwrnod sy'n Wyl Banc dynodedig.

Mae'r cyfnod o 20 diwrnod gwaith ar gyfer ymateb yn dechrau:

- Y diwrnod ar ôl derbyn cais gan y Cyngor, neu
- Y diwrnod y mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth bellach y mae ei hangen arno er mwyn nodi a lleoli'r wybodaeth y gofynnwyd amdani

Felly, nid y dyddiad derbyn yw'r dyddiad y caiff y cais ei drosglwyddo i'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth i'w brosesu.

Fodd bynnag, pan anfonir cais drwy e-bost, os yw neges awtomataidd 'allan o'r swyddfa' yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch ble i anfon y neges, ni fyddai'r cais yn cael ei dderbyn gan y Cyngor nes iddo gael ei ail-anfon at y cyswllt arall.

Pan nad yw'r Cyngor yn gallu darparu'r wybodaeth yn rhad ac am ddim ac yn penderfynu codi ffi, bydd gan yr ymgeisydd gyfnod o dri mis i'w dalu o'r dyddiad y bydd y Cyngor yn anfon hysbysiad yn gofyn am daliad. Gall hyn ddigwydd pan fydd angen llungopïo llawer.

Nid yw'r cyfnod rhwng rhoi hysbysiad a dyddiad derbyn y ffi wedi'i gynnwys yn y 20 diwrnod gwaith.

Bydd ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg. Pan fo dogfennau ar gael yn Saesneg yn unig fe'u darperir yn y ffurf honno ond gan gynnwys llythyr neu e-bost yn Gymraeg.

Wrth ymdrin â chais am wybodaeth, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor gaffael na chreu gwybodaeth nad yw'n ei dal eisoes. Os ydym yn credu y gallai awdurdod cyhoeddus arall gadw'r wybodaeth y gofynnir amdani, byddwn yn ymgynghori â'r awdurdod. Mewn achosion tebyg, ni fydd enw'r ymgeisydd yn cael ei rannu â'r awdurdod cyhoeddus arall.

Os oes gan yr awdurdod cyhoeddus arall wybodaeth berthnasol, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod nad yw'r Cyngor yn cadw'r wybodaeth a bydd yn cael manylion ynghylch sut i gysylltu â'r awdurdod perthnasol. Gyda chaniatâd yr ymgeisydd, rhoddir yr opsiwn hefyd o drosglwyddo'r cais i'r awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth.

Bydd gwybodaeth sydd eisoes ar gael fel rhan o wasanaeth codi tâl presennol yn cael ei darparu drwy'r gwasanaeth hwnnw.



Ni fydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth sydd eisoes yn rhesymol hygyrch i'r sawl sy'n gwneud y cais ac yn benodol, gwybodaeth sydd ar gael o dan y cynllun cyhoeddi.

Gall ymgeisydd fynegi dewis o ran sut i gyflenwi'r wybodaeth. Er enghraifft, taenlen, copi papur neu grynodedb. Pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r dewis a nodwyd.

Pan nad yw'n bosibl cydymffurfio â dewis yr ymgeisydd byddwn yn egluro pam.

Pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani yn set ddata a bod yr ymgeisydd wedi gofyn am gopi electronig, byddwn yn darparu'r wybodaeth ar ffurf y gellir ei hailddefnyddio megis taenlen Excel, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Gall gwybodaeth a ryddheir i'r ymgeisydd gael ei hailddefnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored 3.0.

#### **4. Terfyn cost**

Gall y Cyngor wrthod ymdrin â chais lle rydym yn amcangyfrif y byddai gwneud hynny'n mynd y tu hwnt i'r 'terfyn priodol', y cyfeirir ato'n fwy cyffredin fel y 'terfyn cost'.

Mae'r terfyn cost yn seiliedig ar gyfradd safonol o £25 yr awr ac ar gyfer y Cyngor £450 (18 awr) yw.

Fodd bynnag, ni allwn ond ystyried y gweithgareddau canlynol wrth amcangyfrif a fyddai ymateb i gais yn fwy na'r terfyn hwn. sef:

- Penderfynu a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw
- Dod o hyd i'r wybodaeth a'i hadalw
- Tynnu gwybodaeth berthnasol o'r ddogfen sy'n ei chynnwys

Ni all y Cyngor ystyried gweithgareddau eraill megis golygu wrth gyfrifo'r amser y byddai'n ei gymryd i ymdrin â chais.

#### **5. Ceisiadau blinderus**

Mae darpariaeth hefyd yn y Ddeddf sy'n galluogi'r Cyngor i wrthod darparu ymateb o sylwedd i gais os bernir ei fod yn flinderus.

Efallai nad yw penderfynu a yw cais yn flinderus yn gwbl syml gan nad yw'r Ddeddf yn diffinio beth sy'n gwneud cais yn flinderus. Fodd bynnag, byddai ceisiadau o'r fath yn cynnwys y canlynol:

- Cais sarhaus sy'n achosi lefel o drallod na ellir ei chyfiawnhau, neu pan mae bygythiadau yn cael eu gwneud, neu wedi'u gwneud yn erbyn staff
- Pan mae'r cais yn debygol o achosi lefel anghymesur neu anghyfiawnadwy o aflonyddwch, llid neu drallod

Wrth ystyried a yw cais yn flinderus, bydd y Cyngor yn cyfeirio at Gôd Ymarfer Swyddfa'r Cabinet, canllawiau a phenderfyniadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a phenderfyniadau a wneir gan y Tribiwnlys Gwybodaeth.

## **6. Adolygiadau mewnol**

Bydd y Cyngor yn rhoi hawl i ymgeisydd gael adolygiad mewnol os nad yw'n fodlon ar y modd yr ymdriniwyd â chais, yr ymateb y mae wedi'i dderbyn neu os yw'n anghytuno â phenderfyniad i gadw gwybodaeth yn ôl.

Pan fo'r Cyngor yn gwrthod darparu gwybodaeth, gan gynnwys pan na chedwir gwybodaeth, bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad yn cynnwys manylion ynghylch sut i ofyn am adolygiad mewnol gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith.

Derbynnir ceisiadau am adolygiad mewnol fel arfer o fewn 40 diwrnod gwaith i ymateb cychwynnol y Cyngor i gais. Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn adolygiadau mewnol ar ôl yr amser hwn. Dylai'r ymateb cychwynnol hysbysu'r ymgeisydd o hyn.

Bydd manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn cael eu darparu.

## Rhan 3

### Esbonio'r Egwyddorion

#### 1. Bydd y Cyngor mor agored â phosibl

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael oni bai bod rhesymau cyfreithiol neu fudd y cyhoedd dros beidio â gwneud hynny.

Mae enghreifftiau lle na fyddai gwybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus yn cynnwys:

- Pan fo gwybodaeth y gofynnir amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn un o'r categorïau o wybodaeth eithriedig a restrir yn Atodiadau 1 a 2 a phan fo'n berthnasol, y peth mwyaf buddiol i'r cyhoedd yw ei chadw'n ôl
- Pan fo eithriad o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn berthnasol
- Pan fyddai torri cyfrinachedd yn digwydd
- Pan fernir bod gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn adroddiadau i bwyllgorau'r Cyngor yn gyfrinachol neu'n eithriedig o dan Adran 100 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Bydd cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd pan fydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei thrafod. Bydd hyn yn cael ei nodi ar yr agenda.

#### 2. Cyflwyniad busnes

Bydd y Cyngor yn cyflwyno ei fusnes mewn iaith glir yn unol â'i gynllun iaith. Bydd yn anelu at gynhyrchu dogfennau cryno, hawdd eu darllen a bydd yn ystyried anghenion gwahanol sectorau o'r gymuned gan gynnwys pobl ag anableddau.

#### 3. Cynllun cyhoeddi

Mae'r Cyngor yn cynnal cynllun cyhoeddi, sy'n darparu modd i'r cyhoedd nodi gwybodaeth allweddol a gynhyrchir gan y Cyngor yn ystod ei fusnes.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol a gymeradwywyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun cyhoeddi ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i wneud y defnydd mwyaf posibl o'i wefan i gyhoeddi gwybodaeth, gan gynnwys setiau data fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

#### 4. Codi tâl am wybodaeth

Nod y Cyngor yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael yn rhad ac am ddim ac mae'n gwneud hynny'n bennaf drwy ddarparu ymatebion yn electronig.

Fodd bynnag, pan fydd cais yn dod i law am gopi caled a bod angen gwneud llawer o lungopïo neu argraffu, codir tâl.

Mae cost safonol pob copi fel a ganlyn:

- A4 du a gwyn 10c
- A4 lliw 20c
- A3 du a gwyn 20c
- A3 lliw 40c
- A2 50c
- A1 £2.00
- A0 £5.00

Ni fydd y Cyngor yn codi tâl am gopiâu sy'n costio llai na £2.00 i gyd. Mae'r holl gostau'n cynnwys TAW.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi tâl ar gyfradd uwch pan fo unrhyw hawl statudol i wneud hynny'n berthnasol, neu pan ddarperir dogfennau yn ystod trafodion cyfreithiol.

Er ei bod yn anghyffredin, efallai y bydd gan rai cyhoeddiadau bris clawr hefyd. Pan fydd gwybodaeth eisoes ar gael mewn cyhoeddiad â phris, bydd y Cyngor yn darparu manylion y cyhoeddiad a ble i'w gael.

Mae'r Gwasanaeth Archifau yn darparu gwasanaeth ymchwil ar gais, a chodir tâl fesul awr am chwilio am ac adalw gwybodaeth a gedwir yn yr Archif. Cyhoeddir manylion y tâl a'r gwasanaeth hwn ar wefan y Cyngor.

Os yw'n debygol y bydd unrhyw dâl am eich cais, bydd y Cyngor yn eich hysbysu am hyn ac yn caniatáu ichi gadarnhau a ydych am barhau â'r cais cyn iddo wneud unrhyw waith.

Ni fydd y Cyngor yn codi tâl am y canlynol:

- Unrhyw wybodaeth a ddarperir ar wefan y Cyngor (ac eithrio pan fo angen copiâu caled a bod angen argraffu llawer)
- Taflenni, ffurflenni a llyfrynnau am ddim yn ymwneud â'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd
- Archwilio cofrestrau cyhoeddus a gedwir yn swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol
- Archwilio gwybodaeth a gedwir ym mhob llyfrgell gyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin a chan y Gwasanaeth Archifau yn ystod eu horiau agor arferol

## 5. Diogelu preifatrwydd

Mae llawer iawn o'r wybodaeth sydd gan y Cyngor yn ddata personol. Ni fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei datgelu o dan y Ddeddf na'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol lle byddai hyn yn torri unrhyw un o'r egwyddorion a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU.

Mae gan unigolion hawl ar wahân i gael mynediad at ddata personol amdanynt eu hunain o dan Erthygl 15 o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU. Cyfeirir at hyn yn aml fel hawl gwrthrych am wybodaeth.

Gellir gwneud ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig a darperir manylion cyswllt ar gyfer gwneud ceisiadau i'r cyhoedd ar ein gwefan ac mewn hysbysiadau preifatrwydd.

## 6. Datganiad cydraddoldebau

Mae'n rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a gofalu y cedwir at **Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** yr Awdurdod ac y caiff ei weithredu'n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhyw, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth gymhwyso'r polisi hwn.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, e-bostiwch [informationgovernance@sirgar.gov.uk](mailto:informationgovernance@sirgar.gov.uk)

Cymeradwywyd y polisi gan y Cabinet ar: 14/11/22  
Dyddiad adolygu: Tachwedd 2025  
Paratowyd y polisi gan: Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth

# Atodiad 1

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth - gwybodaeth eithriedig

Yn Rhan 2 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae categorïau o "wybodaeth eithriedig", hynny yw gwybodaeth nad oes rhaid i'r Cyngor ei datgelu. Mae rhai o'r categorïau yn cael statws 'eithriad absoliwt' i'r hawl i ddatgelu gwybodaeth. Golyga hyn y gall y Cyngor wrthod datgelu'r wybodaeth yn awtomatig os yw'r wybodaeth yn perthyn i un o'r categorïau hyn.

Os yw'r wybodaeth yn perthyn i un o'r categorïau eraill, yna mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu prawf budd y cyhoedd.

## Eithriadau Absoliwt

- **Adran 21** – Gwybodaeth y gellir cael mynediad 'rhesymol' ati trwy fodd arall e.e. gwybodaeth sydd ar gael o dan y cynllun cyhoeddi
- **Adran 23** – Gwybodaeth a gafwyd gan, neu sy'n ymwneud â, chyrrff sy'n delio gyda materion diogelwch
- **Adran 32** – Cofnodion llys
- **Adran 34** – Braint seneddol
- **Adran 36** - Gwybodaeth sy'n debygol o beryglu'r gallu i gynnal busnes cyhoeddus yn effeithiol
- **Adran 40** – Gwybodaeth bersonol. Ni all pobl gael gwybodaeth bersonol amdanynt eu hunain o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth oherwydd mae modd ei gael drwy gyfrwng arall dan Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU. Ni ellir rhyddhau data personol am drydydd parti os byddai gwneud hynny yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Os bernir y byddai rhyddhau gwybodaeth yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data, nid oes angen gweithredu prawf budd y cyhoedd
- **Adran 41** – Gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol
- **Adran 44** – Gwaharddiadau cyfreithiol ar ddatgelu gwybodaeth (megis lle byddai datgelu'n arwain at ddirmyg llys)

## Atodiad 2

### Eithriadau amodol

Mae'r eithriadau canlynol yn amodol ar brawf budd y cyhoedd. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r wybodaeth gael ei rhyddhau oni bai bod budd y cyhoedd o beidio â'i rhyddhau yn drech na budd y cyhoedd o'i rhyddhau.

- **Adran 22** - Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
- **Adran 24** – Diogeledd cenedlaethol
- **Adran 26** - Amddiffyn
- **Adran 27** - Cysylltiadau rhyngwladol
- **Adran 28** - Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
- **Adran 29** - Yr economi
- **Adran 30** - Ymchwiliadau ac achosion gan awdurdodau cyhoeddus
- **Adran 31** - Gorfodi'r gyfraith
- **Adran 33** - Swyddogaethau archwilio
- **Adran 35** - Ffurio polisi'r llywodraeth
- **Adran 37** - Cyfathrebiadau gydag Ei Mawrhydi, ac ati
- **Adran 38** - Iechyd a diogelwch
- **Adran 39** - Gwybodaeth amgylcheddol, oherwydd gellir cael mynediad at y wybodaeth hon drwy'r **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**
- **Adran 40** - Gwybodaeth bersonol. Mae rhai rhannau cyfyngedig o'r adran hon yn rhai lle mae'n rhaid cynnal prawf budd y cyhoedd
- **Adran 42** - Braint broffesiynol gyfreithiol
- **Adran 43** - Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion masnachol

Os yw'r Cyngor o'r farn bod budd y cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd o'i rhyddhau, rhaid i'r Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd am ei resymau, oni bai y byddai, wrth wneud hynny, yn rhyddhau'r wybodaeth eithriedig.

## Atodiad 3

### Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol - eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth

Mae'r eithriadau posibl canlynol yn berthnasol:

- **Rheoliad 12(4)(a)** – ni chedwir y wybodaeth
- **Rheoliad 12(4)(b)** – mae'r cais yn amlwg yn un afresymol
- **Rheoliad 12(4)(c)** – mae'r cais wedi'i lunio mewn modd rhy gyffredinol sy'n golygu na ellir ymateb iddo
- **Rheoliad 12(4)(d)** – mae'r cais am wybodaeth sy'n dal i gael ei chwblhau, dogfennau sydd heb eu gorffen neu ddata anghyflawn
- **Rheoliad 12(4)(e)** – mae'r cais yn golygu datgelu cyfathrebu mewnol
- **Rheoliad 12(5)** – byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith niweidiol ar y canlynol:

**(a)** Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyn, diogeledd cenedlaethol neu ddiogelwch y cyhoedd

**(b)** Cwrs cyfiawnder, gallu unigolyn i gael treial teg neu allu awdurdod cyhoeddus i gynnal ymchwiliad troseddol neu ymchwiliad disgyblu

**(c)** Hawliau eiddo deallusol

**(d)** Cyfrinachedd achos lle darperir hyn yn ôl y gyfraith\*

**(e)** Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir hyn yn ôl y gyfraith i ddiogelu buddiant economaidd dilys\*

**(f)** Buddiannau'r unigolyn sydd wedi darparu'r wybodaeth lle mae ef/hi wedi darparu'r wybodaeth yn wirfoddol, nid oes unrhyw amgylchiadau eraill a fyddai'n caniatáu i'r awdurdod ei datgelu ac nid yw'r unigolyn wedi caniatáu i'r wybodaeth gael ei datgelu\*

**(g)** Diogelu'r amgylchedd\*

\*nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol os yw'r wybodaeth yn ymwneud ag allyriadau.

**Lle mae un neu ragor o'r uchod yn berthnasol, mae'n rhaid inni wedyn ystyried a yw budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.**

- **Rheoliad 13** – bydd gwybodaeth bersonol sy'n eiddo i rywun arall yn cael ei heithrio, lle, er enghraifft, y byddai datgelu'r wybodaeth yn groes i unrhyw egwyddorion diogelu data a geir yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU. Nid oes angen cynnal prawf budd y cyhoedd yn yr amgylchiadau hyn.